

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Brynteg Dental, Abertawe

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 09 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Brynteg Dental, Abertawe yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 09 Rhagfyr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur i roi gwybod eu barn i ni am weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd un holiadur gan aelod o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn ymddangos yn yr adroddiad. Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan staff, ni chafodd adborth na sylwadau eu cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael gofal parchus ac urddasol drwy gydol eu taith fel cleifion. Nododd pob claf fod y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn yn 'dda iawn', ac roedd yr holl adborth am y practis a'r staff yn gadarnhaol. Gwelsom dystiolaeth fod hawliau a thriniaeth gyfartal i unigolion yn cael eu cefnogi a'u cynnal, ac roedd hyn yn cyd-fynd â'r adborth a gawsom gan gleifion am y gofal ag urddas a gawsant drwy gydol eu taith fel claf.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i alluogi clinigwyr a chleifion i gyfathrebu'n effeithiol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r adborth a gawsom gan gleifion, yn arbennig y rhai a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rheoli apwyntiadau a brysbennu cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn foddhaol. Dywedodd pob claf wrthym fod iechyd y geg wedi cael ei esbonio iddo mewn ffordd roedd yn gallu ei deall, a gwelsom fod lefel addas o wybodaeth hybu iechyd y geg yn cael ei harddangos.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth gan gleifion yn gadarnhaol
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus
- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd yn ymddangos ei fod mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch a rhagofalon tân y practis yn briodol, gan sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel mewn lleoliad diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd cyfarpar sychu dwylo i'w gael mewn un ddeintyddfa nac ychwaith yn yr ystafell ddihalogi a bod angen gwella'r mesurau a oedd ar waith i leihau a chofnodi'r risg o anafiadau a achosir gan nodwydd hefyd.

Gwelsom feysydd i'w gwella mewn perthynas â rheoli cyflenwadau o feddyginiaethau a'r gwiriadau tymheredd ar yr oergell meddyginiaethau. At hynny, gwelsom feysydd i'w gwella mewn perthynas ag ansawdd cofnodion cleifion.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da a bod y cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng hefyd yn bresennol ac o fewn y dyddiad defnyddio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid rhoi systemau cadarn ar waith ar gyfer monitro meddyginiaethau a'r oergell meddyginiaethau
- Rhaid i'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer archwiliadau pelydr-X gael ei gynnal a'i gadw yn addas a dylai prosesau graddio gael eu cynnal gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol.
- Dylai cofnodion fod yn gynhwysfawr a chael eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda a'i gadw'n lân.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn amlwg yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod gyda phwy y dylent siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon.

Roedd gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli mewn ffordd gefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff, a gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn. Yn y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei hyfforddiant gorfodol a bod y rheolwyr yn rhoi amser i'r staff gwblhau cyrsiau hyfforddiant.

Gwelsom ddull rhagweithiol o wella ansawdd gyda phob gweithgaredd gwella gorfodol yn cael ei gynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, gwastraff clinigol, codi a chario ac ansawdd radiograffig, yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y system a oedd ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion yn effeithiol
- Roedd strwythurau rheoli clir yn helpu'r practis i redeg yn effeithiol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd ymatebion i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth a gawsant gan y practis naill ai 'yn dda' neu 'yn dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Rwyf wedi bod yn dod i'r practis ers sawl blwyddyn. Mae'r merched yn fy maldodi ac mae [Aelod o'r staff] yn wych."

"Gofal ardderchog i gleifion. Hapus iawn."

"Rwyf wedi bod yn dod i'r practis ers sawl blwyddyn a faswn i ddim yn mynd i unrhyw le arall."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth a phosteri i gleifion yn cynnwys cyngor ac arweiniad yn ymwneud â chynnal iechyd y geg da, trin briwiau annwyd, rhoi'r gorau i ysmegu ac effeithiau andwyol meddyginiaethau. Roedd datganiad o ddiben y practis a'r daflen wybodaeth i gleifion yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld ar wefan y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau ynghyd ag enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos mewn lle hawdd i'w gweld. Roedd yr oriau agor a'r manylion cyswllt brys yn cael eu harddangos yn glir y tu allan i'r practis.

Dywedodd pob un o'r cleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da. Nododd pawb a ymatebodd hefyd fod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Roedd sylwadau'r cleifion am y driniaeth a gawsant yn cynnwys:

“Mae pob aelod o'r staff yn groesawgar.”

“Mae'r staff a'r tîm deintyddol ym Mhractis Brynteg yn ardderchog. Maen nhw'n sicrhau bod pob ymweliad yn ddi-dor ac nid oes unrhyw broblem / mater yn ormod o drafferth iddynt. Diolch Brynteg!”

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod yr apwyntiad a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd gan y practis ddrysau practis solet a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau ac roedd gan ffenestri'r practis wydr barugog er mwyn atal cleifion rhag cael eu gweld wrth gael triniaeth. Roedd y mesurau hyn yn cynnal preifatrwydd wrth i'r staff ryngweithio â chleifion. At hynny, dywedodd y staff wrthym nad oedd gwybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, ac er bod y dderbynfa a'r ardal aros wrth ymyl ei gilydd, ni chlywsom unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod dros y ffôn. Roedd ystafell rheolwr y practis yn cael ei defnyddio pan oedd angen cynnal sgysiau neu alwadau ffôn cyfrinachol.

Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff o ran diogelu gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael a gwybodaeth am y risgiau a'r manteision. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y costau wedi cael eu nodi'n glir iddynt a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am beth i'w wneud pe bai ganddynt haint neu argyfwng. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y broses rheoli apwyntiadau a oedd ar waith yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Roedd y cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiad. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddai eu cleifion preifat yn rhedeg yn hwyr o ran apwyntiadau ond bod eu darpariaeth i gleifion y GIG ar ei hôl hi o bryd i'w gilydd. Dywedodd wrthym fod hyn i'w briodoli i amrywiaeth o ffactorau, a oedd yn cynnwys cymhlethdod gofal ac argaeledd clinigwyr. Pan oedd apwyntiadau yn mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, roedd y clinigwyr yn hysbysu staff y dderbynfa am unrhyw oedi er mwyn iddynt roi gwybod i'r cleifion. Byddai'r staff yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn pe

byddent yn ymwybodol o unrhyw oedi cyn iddynt gyrraedd. Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith yn sicrhau bod unrhyw oedi i apwyntiadau yn cael ei gyfleu i'r cleifion mewn modd amserol, gydag apwyntiadau amgen yn cael eu cynnig ar gais. Nododd y rhai a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'eithaf hawdd' (3/13) neu'n 'hawdd iawn' (10/13) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Lle y bo'n bosibl, roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion.

Gwelsom fod system briodol ar waith ar gyfer brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny roedd angen gofal brys arnynt fwyaf. Gwelsom fod amser wedi'i bennu yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros dros 24 awr i gael ei weld. Dywedodd un claf a ymatebodd i holiadur AGIC:

“Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn rhagorol. Ces i fy ngweld ar yr un diwrnod. Rwyf bob amser yn cael fy ngweld ar yr un diwrnod.”

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion gysylltu â'r practis mewn argyfwng. Cadarnhaodd fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Mynediad mewn Argyfwng y GIG. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i alluogi clinigwyr a chleifion i gyfathrebu'n effeithiol. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, megis fformat hawdd ei ddeall, ac roedd dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais. Anfonwyd ffurflenni hanes meddygol ar-lein at y cleifion cyn eu hapwyntiadau. Cafodd y cleifion hynny heb fynediad digidol y ffurflenni hyn ar bapur.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd ar gael er mwyn helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith ar gyfer cleifion. Gwelsom y staff yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith i annog y cleifion i siarad Cymraeg heb fod angen iddynt ofyn am siaradwr Cymraeg. Yn ystod ein harolygiad, clywsom aelodau o'r staff a chleifion yn siarad â'i gilydd yn Gymraeg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith fod y cyfle i siarad Cymraeg wedi cael ei gynnig iddynt drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn eu dewis iaith.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom sut roedd y practis yn cefnogi hawliau a thriniaeth gyfartal i unigolion. Roedd gan y practis bolisiau addas ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol i amddiffyn hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd un aelod o'r staff yn swyddog cymorth cyntaf lechyd Meddwl ac roedd yn defnyddio ei sgiliau i helpu'r cleifion a'r staff yn y gwaith. Roedd polisi dim goddefgarwch o ran ymddygiad ymosodol a thrais a pholisi aflonyddu ar waith er mwyn diogelu'r staff rhag ymddygiad ymosodol.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i'r cleifion a'r cyflogeion. Roedd hyn yn cynnwys gostwng y ddesg yn y dderbynfa yn ystod gwaith adnewyddu diweddar a helpu cleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fynd i mewn ac allan o'r practis oherwydd y grisiau o'r stryd i fyny i'r lleoliad. Gwelsom fod hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd yn ymddangos ei fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr ac roedd ganddo dair deintyddfa a derbynfa / ardal aros wrth ymyl ei gilydd a oedd o faint addas ar gyfer nifer y cleifion. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n iawn a gwelsom fod y staff yn cyfathrebu rhwng y deintyddfeydd a'r dderbynfa gan ddefnyddio system negeseua. Roedd y staff yn newid yn y toiledau neu ardal cegin y staff ac roedd cyfleusterau storio addas ar gyfer eiddo personol y staff. Gwelsom fod y toiledau ar gyfer y staff a'r cleifion yn lân a'u bod yn cynnwys y cyfarpar cywir. Fodd bynnag, nid oedd y toiled yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd ac roedd cleifion yn cael gwybod am ddewisiadau amgen addas gerllaw lle y bo angen.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff, gan gynnwys mewn argyfwng. Roedd tystysgrifau ar gyfer profion offer cludadwy a gwifrau sefydlog ar gael, ynghyd â thystysgrifau diogelwch nwy. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ac roeddent yn gynhwysfawr.

Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da a bod digon ohono i allu ymgymryd â phrosesau dihalogi effeithiol ar ôl ei ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo angen.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys profi a chynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion allanfeydd tân a dim ysmegu yn glir. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ym mhob rhan o'r practis. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis 'yn lân iawn'.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff ac roedd arwyddion hylendid dwylo addas i'w gweld. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd peiriannau cyflenwi tywelion papur i'w cael yn neintyddfa un na'r ystafell ddihalogi. Gallai estyn am dywel papur â dwylo gwlyb halogi'r tywelion papur eraill.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau cyflenwi tywelion papur priodol wedi'u gosod ym mhob ardal glinigol

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn credu bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau, a dywedodd un claf:

“Gwelais aelodau o'r staff yn gwisgo masgiau wyneb.”

Roedd trefniadau iechyd galwedigaethol priodol ar waith i'r staff a gwelsom fod protocol y practis ar gyfer offer miniog yn cael ei arddangos. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r practis yn defnyddio chwistrellau Safety Plus ar hyn o bryd ac ni welsom asesiad risg cyfredol ar waith er mwyn lleihau'r risg o anafiadau a achosir gan nodwydd. Felly, ni allem gael sicrwydd bod y risg i unigolion o anafiadau a achosir gan offer miniog yn cael ei rheoli na'i hasesu'n ddigonol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i drin offer miniog yn ddiogel er mwyn atal anafiadau a achosir gan nodwyddau.

Gwelsom fod yr amgylchedd a'r cyfarpar deintyddol wedi cael eu cynnal a'u cadw i lefel foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn ystafell ddihalogi'r practis yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio yn gywir yn addas. Roedd prosesau glanhau â llaw ac uwchsain yn cael eu cynnal cyn sterileiddio'r awtoclaf. Gwnaethom edrych ar gofnodion priodol o wiriadau dyddiol o gylchredau'r peiriant awtoclaf a phroffion ar gyfer yr awtoclaf a'r glanhawr uwchsain. Roedd amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer pob peiriant yn unol â'r canllawiau cyfredol. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddihalogi cyfarpar yn gywir.

Roedd yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff priodol. Roedd y prosesau a oedd ar waith ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau cyffredinol a oedd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn addas. Fodd bynnag, wrth adolygu'r trefniadau rheoli stoc, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod system ar waith ar gyfer gwrthfotigau'r practis. At hynny, gwelsom fod dyddiad un pot o'r sment sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llenwadau wedi mynd heibio yn neintyddfa dau. Gwnaethom ddweud wrth y practis am gael gwared ar yr eitem hon. Gallai gweithio heb system rheoli stoc arwain at sefyllfa lle mae stoc sydd wedi dyddio yn cael ei defnyddio ar glaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system rheoli stoc gadarn ar waith ar gyfer meddyginiaethau a deunyddiau deintyddol.

Wrth archwilio'r oergell sy'n cael ei defnyddio i storio meddyginiaethau, gwelsom ei bod yn cofnodi darlleniad o -14 Celsius. Mae'r tymheredd gweithredu arferol ar gyfer oergell meddyginiaethau tua 2 - 8 gradd Celsius. Gwnaethom ddweud wrth y staff ei bod yn bosibl, felly, na fyddai'r meddyginiaethau sy'n cael eu storio yn yr oergell yn gallu cael eu defnyddio oherwydd yr anghysondeb hwn o ran tymheredd. Gall storio meddyginiaethau y tu allan i'r ystod safonol annilysu eu heffeithiolrwydd a gallent fod yn aneffeithiol neu'n niweidiol pe bai angen eu defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer monitro tymheredd yr oergell meddyginiaethau.

Nodwyd gennym fod mesurau priodol ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos tystiolaeth o gymwysterau boddhaol mewn perthynas ag adfywio cardiopwlmonaidd ar gyfer pob aelod o'r staff ac roedd nifer addas o swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod pob eitem yn bresennol, yn hawdd mynd ati ac o fewn y dyddiad defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru, yn nodi arweinydd diogelu wedi'i enwi ac yn cynnwys siart lif hawdd ei deall yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol. Roedd diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu rhannu drwy hyfforddiant a thrwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom fod ap symudol Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion.

Gwnaeth pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw esbonio y byddent yn gwybod sut i nodi achosion o gam-drin, gyda phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt bryder diogelu ac y byddent yn teimlo bod y practis yn eu cefnogi pe byddent yn gwneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom sut roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar hyn, ynghyd â'r cyfarpar deintyddol aml dro, oll yn cael eu defnyddio mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo gofal

diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac y gwnaethom arsylwi arnynt yn ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar ac roedd y cofnodion yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar a archwiliwyd gennym ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiannau yn y system.

Wrth adolygu'r cyfarpar radiograffig sy'n cael ei ddefnyddio yn y lleoliad, gwnaethom nodi rhai meysydd roedd angen eu gwella. Yn neintyddfa un, gwelsom y canlynol:

- Nid oedd rhif cyfresol y peiriant pelydr-X yn cyfateb i'r dystysgrif brofi a roddwyd gan eu darparwr.
- Roedd lefelau dosau ar gyfer y peiriant pelydr-X fel petaent yn isel ar gyfer y cysylltiadau a oedd yn cael eu cynnal.
- Roedd y botwm cysylltu ar gyfer y peiriant pelydr-X yn y cyntedd rhwng y drws ffrynt a'r dderbynfa. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o gysylltiadau damweiniol posibl.

Yn ogystal â'r meysydd i'w gwella a nodwyd uchod, gwelsom hefyd fod angen gwella'r system sydd ar gael ar gyfer prosesu archwiliadau pelydr-X. Gwelsom fod crafiadau ar rai o'r platiau ffosffor y gwnaethom edrych arnynt nad oedd system adnabod ar waith ar gyfer pob plât. Gwelsom hefyd nad oedd y sgriniau sy'n cael eu defnyddio i ddarllen archwiliadau pelydr-X wedi cael eu calibradu i ddarllen radiograffau.

Gwelsom hefyd fod prosesau graddio lluniau pelydr-X yn cael eu cwblhau gan nyrsys deintyddol dan hyfforddiant heb unrhyw oruchwyliaeth wedi'i dogfennu gan glinigwyr na nyrs gofrestrdig.

Gall camreoli cyfarpar radiograffig achosi niwed i gleifion, aelodau o'r staff neu ymwelwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod yr holl gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio yn y broses radiograffig yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, ei galibradu a'i oruchwyllo'n gywir**
- **Bod prosesau graddio lluniau pelydr-X yn cael eu cynnal gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol.**

Fel arfer, byddai'n problemau sy'n ymwneud â radiograffau rydym wedi'u nodi uchod, yn cael eu datrys yn ystod y trafodaethau rhwng y goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd a'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd. Fodd bynnag, cawsom ar ddeall nad oedd y sgysiau hyn yn cael eu cynnal fel mater o drefn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd a'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn cysylltu â'i gilydd fel mater o drefn er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr o'r cyfarpar ar y safle.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent yn gwybod pryd y dylid gofyn am gyngor proffesiynol perthnasol, pan fo angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi dealltwriaeth a chydsyniad cleifion i driniaethau llawfeddygol. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol er mwyn helpu i atal achosion o dynnu dannedd o'r man anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o bump claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn system ddigidol ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd pob cofnod y gwnaethom edrych arno yn nodi'r rheswm dros fynychu, hanes meddygol cychwynnol, siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau meinweoedd meddal ac archwiliadau y tu fewn a'r tu allan i'r geg. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth ar goll o rai o'r cofnodion, sy'n golygu nad oedd modd cael darlun cynhwysfawr o'r gofal a'r triniaethau a gafwyd. Gwelsom fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Gwelsom nad oedd unrhyw nodyn i gadarnhau bod profion sgrinio canser y geg wedi'u cwblhau mewn tri chofnod.
- Gwelsom nad oedd manylion atgyfeiriadau wedi'u cofnodi yn nodiadau dau o'r cleifion perthnasol.
- Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod gwaith dilynol wedi'i wneud mewn modd amserol mewn perthynas ag unrhyw gleifion a atgyfeiriwyd.
- Nid oedd cofnod un claf yn cyfeirio at radiograff a oedd wedi cael ei gynnal. Gwelsom nad oedd awdurdodiad i gynnal radiograff wedi'i nodi ar y cofnod hwn nac ar unrhyw gofnod arall. Nid oedd dosau na hyd cysylltiadau wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Gwelsom mai anaml roedd radiograffau wedi'u graddio yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Ni chofnodwyd bod cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i roi i'r cleifion yn y cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt. Yn nodiadau un claf, roedd hefyd yn awgrymu nad oedd y claf yn smygu, er bod hyn wedi'i nodi ar y ffurflen hanes meddygol ddiweddaraf.

- Nid oedd dewisiadau iaith cleifion wedi'u cofnodi yn yr un o'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n diwallu anghenion eu cleifion mewn lleoliad addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd recriwtio i swyddi gwag agored er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i staffio'n llawn. Roedd y cleifion yn datblygu drwy lwybrau trin mewnol ac allanol yn effeithlon. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn cefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol. Dywedodd aelodau tîm arwain y practis wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau arweinyddiaeth yn effeithiol. Roedd y tîm rheoli yn y practis yn cael cymorth gan dîm corfforaethol ehangach er mwyn ei helpu i redeg y gwasanaeth yn effeithiol. Roedd sgrymiau wythnosol yn cael eu cynnal ac roedd cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn eu mynychu. Wrth adolygu cofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau ynghylch rheoli risg, boddhad cleifion a pherfformiad y practis.

Roedd system addas ar waith i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw gamau lliniaru. Gwelsom fod hysbysiadau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) neu hysbysiadau diogelwch Llywodraeth Cymru yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff ac y byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Roedd holl bolisiau'r practis yn cael eu rheoli drwy system gydymffurfio ar-lein a'i bod yn hawdd dod o hyd iddynt. Roedd y polisiau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod y staff yn cael gwybod am newidiadau mewn ffordd effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn amlwg yn cefnogi ei gilydd. Roedd rheolwr y practis yn goruchwyllo gweithdrefnau sefydlu ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn. Roedd arfarniadau yn cael eu cynnal bob blwyddyn ac esboniodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau o ran perfformiad.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pump o'r naw aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol yr aelodau hynny o staff sy'n gweithio yn y practis o'r adeg y cawsant eu cyflogi. Roedd y cofnodion staff a welsom yn cynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau gan y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai dim ond un gwiriad geirda oedd gan rai aelodau o'r staff yn eu ffeil. Gwnaethom ddweud wrth y rheolwr cofrestredig fod yn rhaid i unrhyw staff a benodir yn y dyfodol feddu ar ddau eirda neu fod yn rhaid i'r ymdrechion a wnaed i gael geirda gael eu dogfennu. Roedd asesiad risg ar waith er mwyn nodi ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am gyflogaeth sydd ar goll. Gwelsom fod system fonitro ar-lein gadarn ar waith i gynnal gofynion addasrwydd i weithio pob cyflogai.

Roedd cofnodion y staff a welsom yn dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd pob aelod o'r staff yn cael amser i gwblhau eu hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Roedd gan reolwr y practis system addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant trwy ei systemau corfforaethol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i godi pryderon. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus i roi gwybod am bryderon, a'u bod yn hyderus y byddai'r practis yn eu trin yn deg pe byddent yn gwneud hynny. Dywedodd y staff hefyd y byddai'r practis yn cymryd camau gweithredu i sicrhau na fyddai digwyddiadau yn ailadrodd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion ac roedd arolygon yn cael eu hanfon at y cleifion ar ôl eu hapwyntiadau er mwyn iddynt eu cwblhau. Anogwyd y cleifion hefyd yn cael eu hannog i gwblhau adolygiadau ar-lein, lle y bo'n bosibl. Cafodd adborth gan gleifion ei adolygu'n rheolaidd gan reolwyr y practis, gan gynnwys edrych yn y blwch awgrymiadau bob wythnos a goruchwyliaeth gorfforaethol o adolygiadau ar-lein. Roedd ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Roedd un enghraifft a roddwyd i ni gan y staff o ble roeddent wedi gwella eu gwasanaeth o ganlyniad uniongyrchol i adborth negyddol gan gleifion, yn ymwneud â chyflwr cyffredinol y lleoliad a arweiniodd at waith adnewyddu sylweddol a gwell adborth gan gleifion.

Roedd y polisi cwynion yn cyfateb yn llawn i weithdrefnau Gweithio i Wella y GIG ac roedd yn cael ei hysbysebu yn y ffolder i gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno yn nodi unigolyn penodol i'r cleifion gysylltu ag ef. Roedd unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu cofnodi a'u cyfleu i reolwr y practis mewn modd amserol er mwyn eu

datrys. Roedd sut i uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion gan gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r gwasanaeth eirioli i gleifion, Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwelsom fod polisi'r practis yn addas a bod hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r staff drwy'r bwrdd iechyd. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion neu ddigwyddiadau diweddar o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd bod y prosesau ar waith yn gadarn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom ddull rhagweithiol o wella ansawdd gyda phob gweithgaredd gwella gorfodol yn cael ei gynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, gwastraff clinigol, codi a chario ac ansawdd radiograffig, yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis wedi ceisio cynnal y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn 2025 er mwyn helpu i ysgogi gwelliant parhaus. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y practis wedi bod yn ei chael hi'n anodd cael ymateb gan ddarparwr yr archwiliad, sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Gwnaethom annog y practis i barhau â'i ymdrechion fel y gellid cwblhau'r adnodd archwilio.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnal cydberthnasau gwaith da â phartneriaid eraill sy'n rhan o'r system iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys y meddyg teulu a'r fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Brynteg Dental, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 09 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Brynteg Dental, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 09 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwnaethom nodi nad oedd peiriannau cyflenwi tywelion papur i'w cael yn neintyddfa un na'r ystafell ddihalogi. Gallai estyn am dywel papur â dwylo gwlyb halogi'r tywelion papur eraill.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau cyflenwi tywelion papur priodol wedi'u gosod ym mhob ardal glinigol.	Rheoliad 13 (2) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae peiriannau cyflenwi tywelion papur bellach wedi'i osod yn y ddeintyddfa ac mae'r hen beiriant cyflenwi yn yr ystafell ddihalogi wedi'i newid	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau
2. Gwelsom nad yw'r practis yn defnyddio chwistrellau Safety Plus ar hyn o bryd ac ni welsom asesiad risg cyfredol ar waith er	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i drin offer miniog yn ddiogel er mwyn	Rheoliad 13 (5)	Mae chwistrellau Safety Plus wedi'u harchebu ac mae'r asesiad risg wedi'i ddiweddarau er mwyn	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

	mwyn lleihau'r risg o anafiadau a achosir gan nodwydd. Felly, ni allem gael sicrwydd bod y risg i unigolion o anafiadau a achosir gan offer miniog yn cael ei rheoli na'i hasesu'n ddigonol.	atal anafiadau a achosir gan nodwyddau.		cynnwys chwistrellau Safety Plus		
3.	Ni welsom dystiolaeth bod system rheoli stoc ar waith ar gyfer gwrthfotigau'r practis. At hynny, gwelsom fod dyddiad un pot o'r sment sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llenwadau wedi mynd heibio yn neintyddfa dau. Gwnaethom ddweud wrth y practis am gael gwared ar yr eitem hon. Gallai gweithio heb system rheoli stoc arwain at sefyllfa lle mae stoc sydd wedi dyddio yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system rheoli stoc gadarn ar waith ar gyfer meddyginiaethau a deunyddiau deintyddol.	Rheoliad 13 (4)	Mae nyrs newydd gymhwyso wedi rhoi gweithdrefn rheoli stoc newydd ar waith ar gyfer gwrthfotigau a stoc y practis; mae cofnodlyfrau newydd yn cael eu monitro bob wythnos.	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

	cael ei defnyddio ar glaf.					
4.	Wrth archwilio'r oergell sy'n cael ei defnyddio i storio meddyginiaethau, gwelsom ei bod yn cofnodi darlleniad o - 14 Celsius. Mae'r tymheredd gweithredu arferol ar gyfer oergell meddyginiaethau tua 2 - 8 gradd Celsius. Gwnaethom ddweud wrth y staff ei bod yn bosibl, felly, na fyddai'r meddyginiaethau sy'n cael eu storio yn yr oergell yn gallu cael eu defnyddio oherwydd yr anghysondeb hwn o ran tymheredd. Gall storio meddyginiaethau y tu allan i'r ystod safonol	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer monitro tymheredd yr oergell meddyginiaethau.	Rheoliad 13 (4)	Mae thermostat yr oergell wedi'i drwsio ac mae'r tymhereddau yn gywir ac maent yn cael eu gwirio bob dydd.	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

	annilysu eu heffeithiolrwydd a gallent fod yn aneffeithiol neu'n niweidiol pe bai angen eu defnyddio.					
5.	Wrth adolygu'r cyfarpar radiograffig sy'n cael ei ddefnyddio yn y lleoliad, gwnaethom nodi rhai meysydd roedd angen eu gwella. Yn neintyddfa un, gwelsom y canlynol: - Nid oedd rhif cyfresol y peiriant pelydr-X yn cyfateb i'r tystysgrif brofi a roddwyd gan eu darparwr. - Roedd lefelau dosau ar gyfer y peiriant pelydr-X fel petaent yn isel ar gyfer y	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: - Bod yr holl gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio yn y broses radiograffig yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, ei galibradu a'i oruchwyllo'n gywir - Bod prosesau graddio lluniau pelydr-X yn cael eu cynnal gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol.	Rheoliad 13 (2)	Rhoddwyd gwybod i'r gwneuthurwr fod y rhif cyfresol anghywir wedi'i roi ar adroddiad yr arolygiad. Anfonir dogfen brawf newydd Edrychodd y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd ar lefel y dos ac roedd yn fodlon ar y dos. Mae swits yr ynysydd bob amser yn cael ei chau oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio ac	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Yn aros am waith papur newydd gan y gwneuthurwr â'r rhif cyfresol cywir. Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

cysylltiadau a oedd yn cael eu cynnal. Roedd y botwm cysylltu ar gyfer y peiriant pelydr-X yn y cyntedd rhwng y drws ffrynt a'r dderbynfa. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o gysylltiadau damweiniol posibl. Yn ogystal â'r meysydd i'w gwella a nodwyd uchod, gwelsom hefyd fod angen gwella'r system sydd ar gael ar gyfer prosesu archwiliadau pelydr-X. Gwelsom fod crafiadau ar rai o'r platiau ffosffor y gwnaethom edrych arnynt nad oedd system adnabod ar waith ar gyfer pob plât. Gwelsom hefyd nad oedd y sgriniau sy'n cael eu defnyddio			mae'r allwedd yn cael ei storio mewn lle diogel pan nad yw sesiwn radiograffi yn cael ei chynnal. Mae platiau ffosffor newydd wedi'u harchebu ac mae sticeri wedi'u gosod er mwyn eu hadnabod fesul deintyddfa. Cynghorodd y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd y dylai nyrs newydd gymhwyso oruchwyllo nyrsys dan hyfforddiant yn dogfennu ac yn graddio.		Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
--	--	--	--	--	---

	i ddarllen archwiliadau pelydr-X wedi cael eu calibradu i ddarllen radiograffau. Gwelsom hefyd fod prosesau graddio lluniau pelydr-X yn cael eu cwblhau gan nyrsys deintyddol dan hyfforddiant heb unrhyw oruchwyliaeth wedi'i dogfennu gan glinigwyr na nyrs gofrestredig.					
6.	Fel arfer, byddai'r problemau sy'n ymwneud â radiograffau a nodwyd yn ystod ein harolygiad, yn cael eu datrys yn ystod y trafodaethau rhwng y goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd a'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd. Fodd bynnag, cawsom	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd a'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn cysylltu â'i gilydd fel mater o drefn er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr o'r cyfarpar ar y safle.	Rheoliad 13 (8)	Mae'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd a'r goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd wedi'u hysbysu	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

	ar ddeall nad oedd y sgysiau hyn yn cael eu cynnal fel mater o drefn.					
7.	Roedd gwybodaeth ar goll o rai o'r cofnodion a welsom, sy'n golygu nad oedd modd cael darlun cynhwysfawr o'r gofal a'r triniaethau a gafwyd. Gwelsom fod angen gwella'r meysydd canlynol: - Gwelsom nad oedd unrhyw nodyn i gadarnhau bod profion sgrinio canser y geg wedi'u cwblhau mewn tri chofnod. - Gwelsom nad oedd manylion atgyfeiriadau wedi'u cofnodi yn nodiadau dau o'r cleifion perthnasol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.	Rheoliad 20 (1)	Mae sgrinio canser y geg bellach wedi'i ychwanegu yn lle sgrinio meinweoedd meddal. Mae colofn gwympo newydd wedi'i hychwanegu at y feddalwedd er mwyn rhoi system cofnodi atgyfeiriadau ar waith Mae colofn gwympo newydd hefyd wedi'i hychwanegu at y feddalwedd er mwyn rhoi system cofnodi atgyfeiriadau ar waith fel gyda'r ffolder gwaith dilynol yn swyddfa'r rheolwyr	Karen Tighe Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

• Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod gwaith dilynol wedi'i wneud mewn modd amserol mewn perthynas ag unrhyw gleifion a atgyfeiriwyd. • Nid oedd cofnod un claf yn cyfeirio at radiograff a oedd wedi cael ei gynnal. Gwelsom nad oedd awdurdodiad i gynnal radiograff wedi'i nodi ar y cofnod hwn nac ar unrhyw gofnod arall. Nid oedd dosau na hyd cysylltiadau wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt • Gwelsom mai anaml roedd radiograffau			Mae pob deintydd wedi'i hysbysu bod y feddalwedd wedi'i diweddararu er mwyn cynnwys awdurdodiad, dos a chysylltiad. Diweddarwyd y feddalwedd newydd Mae gan bob deintydd flychau cwmpo newydd ar y feddalwedd y mae'n rhaid iddynt eu llenwi a rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu lle y bo angen. Cofnodwyd dewis iaith cleifion ar hanes meddygol y claf, mae bellach yn cael ei chofnodi ar nodiadau cofrestru hefyd.		Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
---	--	--	---	--	---

wedi'u graddio yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt • Ni chofnodwyd bod cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i roi i'r cleifion yn y cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt. Yn nodiadau un claf, roedd hefyd yn awgrymu nad oedd y claf yn smygu, er bod hyn wedi'i nodi ar y ffurflenni hanes meddygol ddiweddaraf. • Nid oedd dewisiadau iaith cleifion wedi'u cofnodi yn yr un o'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt.					
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Karen Tighe

Swydd: Rheolwr Cofrestredig y Practis

Dyddiad: 21/01/2026